SESIWN 4: HAWL I IECHYD DA – DŴR A GLANWEITHDRA

Ystod: 8–11 oed Amser: 1 awr

Amlinelliad

Mae'r sesiwn hwn yn canolbwyntio ar yr Hawl i iechyd da (Erthygl 24). Bydd y dysgwyr yn dysgu am ddŵr a glanweithdra yn Sierra Leone, gwlad sy'n ei chael hi'n anodd sicrhau bod iechyd da yn rhywbeth y gall pawb ei gael, yn enwedig yn dilyn argyfwng Ebola 2014–15. Yn eu rôl fel aelodau o glwb iechyd ysgol yn Sierra Leone, bydd y dysgwyr yn meddwl am ffyrdd o ddefnyddio iaith emosiynol i ddisgrifio i eraill fanteision y toiledau twll yn y ddaear a'r pympiau dŵr. Bydd y nodiadau a lunnir ganddynt yn eu paratoi ar gyfer Sesiwn 5.

Amcanion dysgu

- Defnyddio iaith emosiynol i ddisgrifio nodweddion.
- Datblygu dealltwriaeth o wlad lle mai ychydig yn unig sy'n cael y cyfle i fwynhau iechyd da.
- Egluro'r ffyrdd y mae cymunedau'n eu defnyddio i geisio goresgyn heriau iechyd.

Canlyniadau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn defnyddio iaith emosiynol i ysgrifennu am fanteision toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr.
- Bydd y dysgwyr yn defnyddio lluniau i ddarganfod tystiolaeth i gefnogi datganiadau penodol.

Cwestiynau allweddol

- Ym mha gyfandir y mae Sierra Leone? Ble glywsoch chi sôn am y wlad?
- Pa lun sy'n dangos tystiolaeth o'r her hon?
- Beth yw manteision y toiled twll yn y ddaear a'r pwmp dŵr newydd?
- Yn eich barn chi, pam nad yw rhai cymunedau wedi buddsoddi yn y toiledau twll yn y ddaear a'r pympiau dŵr newydd?
- Pam y gallai buddsoddi mewn toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr arbed arian i'r cymunedau yn y tymor hir?

Adnoddau

- *Sioe sleidiau Hawliau Plant*: sleidiau 13–29
- *Croeso i Sierra Leone*
- *Croeso i'r Deyrnas Unedig*
- *Toiledau a ffynhonnau*
- *Toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr newydd*

Adnoddau opsiynol

- *Toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr newydd, gyda nodiadau*

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Cymru
Llafaredd
Sgiliau:
Gwerthuso eu siarad a'u gweithgareddau drama eu hunain ac eraill a datblygu dealltwriaeth sut i wella, gan ystyried sut mae siaradwyr yn addasu eu geirfa, tôn, cyflymdra ac arddull i weddu i amrywiol sefyllfaoedd.
Ysgrifennu
Sgiliau:
Defnyddio nodweddion testunau llenyddol ac anllenyddol yn eu hysgrifennu eu hunain, addasu eu harddull i weddu i'r gynulleidfa a'r diben.
Defnyddio terminoleg a geirfa addas i ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.

Amlinelliad o'r Gweithgaredd

Cyflwyniad *(10 mun)*
Croeso i Sierra Leone

- Gofynnwch i'r dysgwyr ydyn nhw wedi clywed am wlad Sierra Leone. Ym mha gyfandir y mae Sierra Leone? Beth maen nhw wedi'i glywed am y wlad, a ble? *Er enghraifft, ar y newyddion.*

- Dangoswch sleid 14 neu gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i Sierra Leone mewn atlas neu ddefnyddio Google Earth i ddychmygu eu bod yn hedfan yno o'r Deyrnas Unedig, ac yna craffu'n fanwl ar dirwedd y wlad a'i phrifddinas, Freetown.

- Defnyddiwch *Croeso i Sierra Leone* i gyflwyno'r dysgwyr i rai ffeithiau allweddol am y wlad a'u cymharu â'r Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio *Croeso i'r Deyrnas Unedig*.

Gweithgaredd 4.1 *(20 mun)*
Beth yw'r problemau?

- Defnyddiwch sleid 17 i atgoffa'r dysgwyr am Erthygl 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Mae gen ti hawl i iechyd da.

- Eglurwch y bydd y dysgwyr yn canolbwyntio ar yr hawl hon ac yn archwilio pam mae rhai gwledydd yn ei chael hi'n anodd sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau iechyd da. Bydd y dysgwyr hefyd yn darganfod beth mae rhai cymunedau'n ei wneud er sicrhau'r hawl hon i bawb.

- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau o tua phedwar. Rhowch gopi i bob grŵp o *Toiledau a ffynhonnau*. Gan ddefnyddio sleidiau 18–29, cyflwynwch yr heriau mae'r toiledau a'r ffynhonnau hyn yn eu cynnig. Mae'n bwysig egluro i'ch dysgwyr mai canlyniad llawer blwyddyn o wrthdaro a diffyg arian i wneud gwelliannau sydd wedi arwain at gyfleusterau glanweithdra a dŵr gwael yn Sierra Leone. Ar ôl darllen pob her, gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i dystiolaeth yn y lluniau sy'n dangos yr her hon. Efallai yr hoffech gyfeirio at y nodiadau o dan bob sleid i hybu'r drafodaeth.

Gweithgaredd 4.2 *(25 mun)*
Beth yw'r atebion?

- Noder bod y gweithgaredd hwn yn galluogi'r dysgwyr i gasglu syniadau ar gyfer araith y byddan nhw'n ei hysgrifennu yn y sesiwn nesaf.

- Gan ddefnyddio sleidiau 30 a 31, darllenwch yr astudiaeth achos am ysgol yn Sierra Leone sydd wedi sefydlu Clwb Iechyd i berswadio aelodau o'r gymuned gyfan i fabwysiadu arferion hylendid a buddsoddi mewn toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr. Bydd y rhain yn gymorth i oresgyn problemau ffynhonnau dŵr a thoiledau agored.

- Eglurwch i'r dosbarth y byddan nhw'n defnyddio chwarae rôl i fod yn aelodau o Glwb Iechyd yr ysgol. Dywedwch wrthyn nhw am ddychmygu bod rhywun wedi gofyn iddyn nhw gymryd rhan mewn digwyddiad i godi ymwybyddiaeth yn y gymuned, lle bydd yn rhaid iddyn nhw gyflwyno araith yn perswadio aelodau'r gymuned i fuddsoddi mewn toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr.

- Gan ddefnyddio sleidiau 34 a 35, dangoswch luniau i'r dysgwyr o doiled twll yn y ddaear a phwmp dŵr newydd a defnyddiwch nodiadau'r sleidiau i egluro manteision y buddsoddiadau newydd hyn.

- Eglurwch yr angen i ystyried pa wrthwynebiad allai godi o'r gymuned, er enghraifft, "Fel hyn rydyn ni wastad wedi gwneud pethau" neu "Does ganddon ni ddim arian".

- Rhowch gopi i'r dysgwyr, mewn parau, o ddwy dudalen: *Toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr newyd*d.

- Gofynnwch i'r dysgwyr gydweithio i ychwanegu geiriau neu frawddegau at y llun ar y daflen waith yn disgrifio'r manteision. Gallan nhw ddefnyddio'r lluniau o'r hen doiledau a'r ffynhonnau i'w hatgoffa o'r problemau y bydd y toiledau twll yn y ddaear a'r pympiau dŵr yn eu datrys.

- Ar gyfer y geiriau neu'r brawddegau maen nhw'n eu hysgrifennu, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio iaith emosiynol i ddisgrifio'r nodwedd honno. Er enghraifft, 'Mae'r toiled twll yn y ddaear newydd **gwych** yma wedi'i adeiladu bellter diogel oddi wrth yr afon a chartrefi pobl'. Defnyddiwch sleid 36 i ddangos enghreifftiau i'r dysgwyr o iaith emosiynol y gallen nhw ei defnyddio.

Gwahaniaethu
Haws: Rhowch y daflen waith: *Toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr newydd, gyda nodiadau*, i'r dysgwyr, i'w hatgoffa am nodweddion pob llun mae angen iddyn nhw wneud sylw arno.

Anoddach: Gofynnwch i'r dysgwyr ddatblygu eu syniadau ymhellach drwy ddefnyddio cysyllteiriau o'r sesiwn blaenorol (cyfeiriwch at wal waith eich dosbarth).

Sesiwn llawn *(5 mun)*

- Gofynnwch i'r dysgwyr pam maen nhw'n meddwl nad yw cymunedau eisoes yn buddsoddi yn y toiledau twll yn y ddaear a'r pympiau dŵr newydd. Ceisiwch gael yr ateb fod adeiladu a chynnal y toiledau twll yn y ddaear a'r pympiau dŵr yn aml yn ddrud ac mae'r teuluoedd yn dlawd iawn. Mae arian yn brin mewn llawer teulu a rhaid iddyn nhw wario'u harian ar bethau fel ffioedd ysgol, moddion neu fwyd. Felly maen nhw'n gorfod blaenoriaethu'r hyn maen nhw ei angen (cyfeiriwch yn ôl at Sesiwn 1). Gofynnwch i'r dysgwyr ai yr un rhai fyddai eu blaenoriaethau nhw. Pam neu pam ddim?

- Eglurwch i'r dysgwyr y gallai rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn toiled twll yn y ddaear a phwmp dŵr arbed arian i'r teuluoedd mewn gwirionedd yn y tymor hir. Mae ffynhonnell ddŵr glân yn arwain at lai o salwch yn y teulu, felly bydd llai o foddion i'w prynu, bydd y plant yn gallu mynd i'r ysgol a bydd y teulu'n ddigon iach i weithio.

Ychwanegwch y geiriau a'r brawddegau emosiynol at wal waith y dosbarth.

Syniadau pellach

- Cyn Sesiwn 5, efallai yr hoffech ofyn i'r dysgwyr ddarllen a thrafod areithiau gan siaradwyr uchel eu parch, er enghraifft Martin Luther King, Nelson Mandela neu Winston Churchill. Gall y dysgwyr drafod strwythur yr araith a dyfeisiau fel ailadrodd a 'cadwyn o dri'. Gwnewch yn siŵr fod y dysgwyr yn deall eu bod yn canolbwyntio ar nodweddion ysgrifennu araith dda mewn perthynas â'r uned hon o waith, yn hytrach na phynciau unrhyw areithiau y gallech eu cyflwyno iddyn nhw.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac i Oxfam. Nid oes caniatâd i ddefnyddio'r delweddau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu'r tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith project.

Croeso i Sierra Leone

Ffeithiau am Sierra Leone

Cyfandir: Affrica

Prifddinas: Freetown

Poblogaeth: 6 miliwn o bobl

Ieithoedd swyddogol: Saesneg yw'r iaith swyddogol, er mai Krio sy'n cael ei siarad yno fwyaf. Mae ieithoedd pwysig eraill yn cynnwys Temne a Mende, ac mae 25 o ieithoedd yn cael siarad yn y wlad i gyd.

Arian: Leone Sierra Leone (SLL) (£1.00 ≈ 6511 SLL)

Man uchaf: Mynydd Bintumani yn nwyrain Sierra Leone (1948m uwchben lefel y môr)

Man isaf: Mae tua 56% o'r tir yn is na 156m uwchben lefel y môr

Hinsawdd: Tropical climate with a wet and a dry season Hinsawdd trofannol.

Prif grefydd: Islam yw'r grefydd fwyaf, ond mae lleiafrif sylweddol o Gristnogion ac animistiaid.

Disgwyliad oes ar gyfartaledd: 46

Cynnyrch Domestig Gros y pen: US$ 410 (Cynnyrch Domestig Gros y pen yn y Deyrnas Unedig ydy US$ 40,225).

Canran o'r boblogaeth sy'n byw mewn tlodi enbyd: 53%

Talgrynnwyd y data i'r rhif cyfan agosaf (data'r boblogaeth i'r miliwn agosaf.)

Ffynhonnell data: Data Agored Banc y Byd: http://data.worldbank.org/ (2010-2013).

Ffynhonnell: Wikimedia Commons- TUBS [CC BY-SA 3.0

Wyddech chi?

- Mae tua 62% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig ac yn dibynnu ar ffermio am fwyd ac incwm.
- Mae'r prif gnydau yn cynnwys: reis, casafa, india-corn a chnau daear. Mae coco, coffi a chnau coco hefyd yn cael eu tyfu.
- Sierra Leone yw un o brif ffynonellau'r byd ar gyfer diemwntiau, aur, titaniwm a bocsit.
- Gwelwyd dirywiad economaidd mawr iawn yn Sierra Leone, yn ogystal ag ansefydlogrwydd gwleidyddol ers canol y 1980au.
- Oherwydd bod y cyfleusterau gofal iechyd mor wael, roedd y problemau a achosodd epidemig Ebola Sierra Leone, a ddechreuodd yn 2014, yn llawer gwaeth.

Croeso i'r Deyrnas Unedig

Ffeithiau am y Deyrnas Unedig

Cyfandir: Ewrop
Prifddinas: Llundain
Poblogaeth: 64 miliwn o bobl
Iaith swyddogol: Cymraeg a Saesneg yng Nghymru; Saesneg yn y gwledydd eraill
Arian: 100 ceiniog (c) = 1 bunt (£)
Man uchaf: Ben Nevis (1,344 metr uwchben lefel y môr)
Man isaf: Holme, Swydd Gaergrawnt (2.75 metr dan lefel y môr)
Hinsawdd: Hinsawdd tymherus. Mae'n tywydd yn aml yn ansefydlog ac mae'n bosib cael llawer math gwahanol o dywydd mewn un diwrnod.
Prif grefydd: Cristnogaeth. Islam yw'r ail grefydd fwyaf. Mae tua 25% o bobl yn y Deyrnas Unedig yn disgrifio'u hunain fel rhai heb unrhyw grefydd.
Disgwyliad oes ar gyfartaledd: 81
Cynnyrch Domestig Gros y pen: US$40,225
Canran o'r boblogaeth sy'n byw mewn tlodi enbyd: Dim data*

Talgrynnwyd y data i'r rhif cyfan agosaf (data'r boblogaeth i'r miliwn agosaf.)

Ffynhonnell data: Data Agored Banc y Byd: http://data.worldbank.org/ (2011–2013)
*Does dim data ar gael gan nad oes neb yn y Deyrnas Unedig yn byw ar lai nag $1.25 y dydd.

Ffynhonnell: Wikimedia Commons
http://commons.wikimedia.org/wiki/File:Europe_location_UK.png
Gan David Liuzzo

Wyddech chi?

- Enw swyddogol y Deyrnas Unedig ydy Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae'n cynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Pentre *Llanfairpwllgwyngyllgogery-chwyrndrobwllllantysiliogogogoch* ar Ynys Môn sydd â'r enw lle swyddogol hiraf yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n un o'r enwau hiraf yn y byd
- Yn Lloegr y cafwyd y stampiau cyntaf yn y byd.
- Mae dros 790 o ynysoedd yn yr Alban, ond dim ond ar 93 ohonyn nhw y mae pobl yn byw, fel arfer.

Taflenni gwaith: Toiledau a ffynhonnau

Credyd lluniau (y cyfan): John McLaverty, Oxfam

Taflen waith: Toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr newydd

John McLaverty, Oxfam

John McLaverty, Oxfam

Taflen: Toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr newydd, gyda nodiadau

Pellter diogel oddi wrth y tai a ffynonellau dŵr

John McLaverty, Oxfam

Y twll yn cael ei ailgloddio bob chwe mis

Deunyddiau ar gael yn lleol a dull adeiladu hawdd

Taflen waith: Toiledau twll yn y ddaear a phympiau dŵr newydd, gyda nodiadau

Pwmp dŵr yn hytrach na ffynnon a bwced

Wedi'i orchuddio â choncrit

John McLaverty, Oxfam

Wal o amgylch

Ffi cynnal a chadw